

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: Bil lechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)	Rhif Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg <i>(i'w llenwi gan Uned y Gymraeg):</i>
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:	Samantha French
Dyddiad:	Hydref 2019
Arweinydd polisi:	Chris Gittins
Manylion cyswllt:	DeddfIaA.MUPAct@llyw.cymru

Math o Raglen/Prosiect

☐ Polisi	☐ Prosiect neu raglen
☒ Deddfwriaeth	☐ Ymchwil, gwerthusiad
☐ Grant	☐ Gwasanaethau
☐ Newid busnes	☐ Contractau, tendrau
☐ Seilwaith	
☐ Adeiladu, Cyfalaf	
☐ TGCh	
☐ Arall (nodwch isod)	

Costau: Beth yw'r gost oes gyfan a ragwelir ar gyfer y rhaglen/prosiect? Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).				
O dan £25k	£25k - £49k	£50k - £249k	£250k - £1 miliwn	Dros £1 miliwn
☐	☐	☐	X	☐

O'r uchod, rhowch fanylion unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg.

Mae costau cyflwyno Isafbris Uned o 50c i awdurdodau lleol ac eraill wedi eu cynnwys yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Rheoliadau lechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) 2019. Mae'r rheoliadau yn pennu lefel yr Isafbris Uned ar gyfer alcohol at ddibenion Deddf lechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (y cyfeirir ati fel Deddf 2018 am weddill y ddogfen hon).

Rhagwelir mai ychydig iawn o gostau fydd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Gymraeg, o ran y rheoliadau sy'n pennu lefel yr Isafbris Uned. Mae'n debyg y bydd unrhyw gostau ychwanegol, megis arwyddion dwyieithog, hysbysebu a chanllawiau, yn cael eu cynnwys o fewn y costau gweithredu cyffredinol ac ni fydd yn hawdd eu nodi ar wahân.

Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?					
Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Mwy na 10 mlynedd	Ddim yn hysbys
☐	☐	☐	☐	☐	X
Mae Adran 22 o Ddeddf 2018 yn darparu y bydd y darpariaethau isafbris yn cael eu diddymu ar ôl cyfnod o chwe blynedd o'r dyddiad cychwyn, oni bai bod Gweinidogion Cymru (yn amodol ar gytundeb y Cynulliad Cenedlaethol) yn darparu drwy reoliadau eu bod i barhau.					
Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:					
28 Medi – 21 Rhagfyr 2018: Ymgynghoriad dwyieithog ar Reoliadau drafft lechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) 2019 - a'r lefel a ffefrir gan Lywodraeth Cymru fel Isafbris Uned am alcohol o 50c. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys Memorandwm Esboniadol drafft a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y rheoliadau. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau penodol ar effeithiau posibl cyflwyno rheoliadau ar yr Iaith Gymraeg. Cyhoeddwyd crynodeb o'r 148 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad yn ddwyieithog ar wefan Llywodraeth Cymru ar 15 Chwefror 2019: https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-02/crynodeb-or-ymatebion.pdf https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-02/summary-of-responses_0.pdf Gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ffactorau eraill, mae Llywodraeth Cymru yn dal o'r farn bod isafbris uned o 50c yn ymateb cymesur i fynd i'r afael â risgiau yfed gormod o alcohol i ieuchyd – a bod isafbris uned o 50c yn taro cydbwysedd rhesymol rhwng y buddion disgwylidig i ieuchyd y cyhoedd ynghyd â'r buddion cymdeithasol ac ymyrraeth yn y farchnad.					
CAM 1: CYNLLUNIO					
Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir / beth gaiff ei ystyried yn 'llwyddiant'?					
Amcan pennaf Deddf 2018 a'r rheoliadau yn pennu lefel yr isafbris uned am alcohol yw mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, drwy leihau faint o alcohol a gaiff ei yfed gan yfwrwyr peryglus a niweidiol. Mae Deddf 2018 ac isafbris uned o 50c yn anelu at ddiogelu ieuchyd yfwrwyr peryglus a niweidiol sy'n dueddol o yfed symiau uwch o gynhyrchion rhad sy'n cynnwys lefelau alcohol uchel. Mae'r sail resymegol yn y polisi ar gyfer cyflwyno isafbris am alcohol wedi datblygu yn dda. Roedd Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd <i>Gwrando arnoch chi: Mae eich ieuchyd yn bwysig</i> a gyhoeddwyd ar 2 Ebrill 2014, wedi tynnu ynghyd nifer o gynigion					

deddfwriaethol er mwyn mynd i'r afael â phryderon penodol am iechedd y cyhoedd gan ddefnyddio deddfwriaeth. Roedd y Papur Gwyn yn cynnwys cynnig i gyflwyno isafbris uned am alcohol. Denodd hyn ddiddordeb mawr yn ystod y cyfnod ymgynghori, yng Nghymru a thu hwnt. Derbyniwyd cyfanswm o 713 o ymatebion a chyhoeddwyd adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2014. Roedd 145 o'r ymatebion yn ymwneud â'r isafbris uned, a'r mwyafrif helaeth ohonynt o blaid deddfu i gyflwyno isafbris uned am alcohol.

Yna, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru hefyd ar y Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) drafft ym mis Gorffennaf 2015. Roedd y mwyafrif o randdeiliaid a sefydliadau wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad yn gefnogol ar y cyfan o gyflwyno isafbris am alcohol. Cafwyd cyfanswm o 194 o ymatebion i'r ymgynghoriad yn 2015; roedd 68% o'r ymatebwyr o blaid cyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru. Mae crynodeb o ymatebion ymgynghoriad 2015 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/bil-drafft-iechedd-y-cyhoedd-isafbris-alcohol>.

Bydd Deddf 2018 yn cyflwyno isafbris am alcohol a gyflenwir yng Nghymru i berson yng Nghymru ac yn sefydlu gweithdrefn orfodi a arweinir gan yr awdurdod lleol i sicrhau nad yw alcohol yn cael ei werthu am bris rhatach na hynny.

Mae Deddf 2018 yn ceisio cyflwyno isafbris uned ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol yng Nghymru, a bydd yn cael ei gyfrifo ar yr isafbris uned, canran cryfder yr alcohol a'i gyfaint. Mae'r isafbris uned at y dibenion hyn wedi'i bennu yn Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) 2019 i'w gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rhwng 28 Medi a 21 Rhagfyr 2018, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y lefel isafbris uned a ffeirir ganddi, sef isafbris uned o 50c. Derbyniwyd cyfanswm o 148 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae'r darpariaethau yn Neddf 2018 a'r rheoliadau sy'n pennu'r lefel yn gyson â'r dull ataliol o ofal iechedd darbodus i weithredu pan fo potensial i ostwng neu osgoi'r costau cymdeithasol hirdymor a chostau ariannol uwch sy'n gysylltiedig â salwch y gellir ei osgoi.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried a beth fydd yr effeithiau os na fydd y polisi'n cael ei weithredu?

Mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) 2019 yn darparu tystiolaeth gadarn i gefnogi'r buddion a ragwelir i isafbris o 50c a'i ffocws ar dargedu yfwyr niweidiol a pheryglus a lleihau lefelau goryfed alcohol, gan gynnwys ymhlith yfwyr ifanc, er mwyn diogelu unigolion, teuluoedd a chymunedau.

A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg?

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth *Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg* ar gyfer y Gymraeg sydd â'r nod o gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ac yn defnyddio'r iaith. Mae darparu gwasanaethau dwyieithog hefyd yn flaenoriaeth allweddol a chaiff ei chefnogi gan Safonau'r Gymraeg.

Mewn perthynas ag iechyd, mae'r fframwaith strategol "*Mwy na geiriau...*" yn anelu i gryfhau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y Gymraeg.¹

Mae Deddf 2018 a'r rheoliadau sy'n pennu lefel yr isafbris uned yn bennaf yn ymwneud â mater iechyd y cyhoedd ar wahân - ei nod yw lleihau yfed alcohol peryglus a niweidiol drwy gyflwyno isafbris uned am alcohol, yn hytrach na darpariaeth a hygyrchedd cyffredinol gwasanaethau iechyd. O ganlyniad, ni ddisgwylir y bydd y rheoliadau sy'n pennu'r lefel yn cael effaith sylweddol ar y Gymraeg. Ond bydd angen i arwyddion, canllawiau a dogfennau dwyieithog eraill gael eu haddasu a/neu eu drafftio fel rhan o waith arferol busnesau manwerthu masnachol. Mae'r materion hyn wedi'u trafod, ac yn parhau i gael eu trafod, gyda'r diwydiant manwerthu.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y gellir cynnwys y costau hyn o fewn y newidiadau prisio a gweinyddu arferol a wynebier fel arfer o ganlyniad i arferion busnes dwyieithog y sector manwerthu.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu canllawiau i fanwerthwyr ac mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y rheoliadau yn nodi cyllideb o £11k at y diben hwn, a £100k pellach yn benodol ar gyfer cyfathrebu ynghylch yr isafbris am alcohol. Mae Adran 29 o Ddeddf 2018 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo'r nodau iechyd y cyhoedd sydd yn y ddeddfwriaeth. Daeth y ddyletswydd hon i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Mae'r holl ddeunydd cyfathrebu ynghylch yr isafbris uned i hyrwyddo ei nodau iechyd y cyhoedd wedi bod yn ddwyieithog (a bydd hyn yn parhau). Hyd yma (er enghraifft) mae hyn wedi cynnwys cyhoeddi ffeithluniau ar effaith isabris uned o 50c, GIFs ar gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo sut y gall isafbris uned gyfrannu at leihau yfed peryglus a niweidiol, ffeithluniau yn crynhoi nodau'r ymgynghoriad a dogfen holi ac ateb ar yr isafbris uned - pob un ohonynt wedi'u cyhoeddi yn ddwyieithog.

Bydd cyhoeddi deunyddiau cyfathrebu a deunyddiau ategol dwyieithog ar yr isafbris uned yn cefnogi nodau *Cymraeg 2050 - miliwn o siaradwyr Cymraeg* a Safonau'r Gymraeg drwy gryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned a chyfrannu tuag at fuddion iechyd cymunedol ar yr un pryd.

Credir y bydd y rheoliadau sy'n pennu lefel yr isafbris uned hefyd yn cefnogi nod strategaeth y Gymraeg i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle - bydd dogfennau, canllawiau, hyfforddiant, cyhoeddusrwydd a chyfathrebu sy'n gysylltiedig â chyflwyno, gweithredu a gorfodi Deddf 2018 a'r rheoliadau sy'n pennu lefel yr isafbris uned ar gael yn ddwyieithog.

1

<https://gweddiill.llyw.cymru/topics/health/publications/health/guidance/words/index1b1b.html?force=cy>

Gofynnwyd cwestiynau safonol ynghylch effaith y polisi ar y Gymraeg fel rhan o'r ymgynghoriad. Mae Safonau'r Gymraeg a roddwyd ar Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol iddi roi ystyriaeth lawn i unrhyw effaith ar y Gymraeg wrth wneud unrhyw benderfyniadau polisi, ym mhob maes polisi, er mwyn sicrhau polisiau mwy cadarn sy'n unol â'r dyhead o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hefyd yn sicrhau nad oes canlyniadau anfwriadol i bolisiau Llywodraeth Cymru a dim effeithiau niweidiol ar y Gymraeg. Er na wnaeth nifer o ymatebwyr ateb y cwestiynau hyn, a bod rhai wedi nodi eu bod yn amherthnasol i'r polisi, roedd rhai ymatebwyr yn croesawu'r ystyriaeth. Yn benodol, roedd cefnogaeth gryf i sicrhau bod yr holl ddeunydd cyfathrebu a dogfennau ategol ar yr isafbris am alcohol (fel canllawiau i fanwerthwyr ac awdurdodau lleol) a deunydd cyfathrebu ynglŷn â hyrwyddo nodau iechyd y cyhoedd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 ar gael yn ddwyieithog.

Nododd nifer fach o ymatebwyr effeithiau negyddol posibl yr isafbris uned am alcohol - er enghraifft, y potensial y byddai isafbris uned o 50c yn cael effaith negyddol ar dafarndai gwledig mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad. Gwnaed sylwadau penodol hefyd o ran yr isafbris uned a diwylliant Cymreig ehangach a diogelu iechyd y genedl. Nododd nifer fach o ymatebion hefyd y gall yr isafbris uned gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg os bydd pobl yn dechrau mynd i'r dafarn (er enghraifft - mewn ymateb i'r cynnydd mewn pris alcohol mewn archfarchnadoedd). Fel y nododd un ymateb: *Mae argaeledd alcohol rhad mewn archfarchnadoedd yn annog pobl i yfed gartref, yn hytrach nag yfed yn y dafarn. Gall cyflwyno isafbris uned olygu bod mwy o bobl yn mynd i'r dafarn, a all yn ei dro gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.* Yn fwy cadarnhaol - ac fel y nodwyd uchod - roedd yr ymatebion yn cydnabod pwysigrwydd deunydd cyfathrebu a deunydd ategol dwyieithog ar yr isafbris uned, yn ogystal â chanllawiau dwyieithog i fanwerthwyr ac awdurdodau lleol.

Pa effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar y Gymraeg ydych chi wedi eu nodi yn ystod y cam cynllunio cychwynnol?

hy siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Yr effeithiau presennol a nodwyd yw:

- Yr angen i sicrhau bod canllawiau, deunyddiau ategol, gwybodaeth i randdeiliaid a hyfforddiant perthnasol yn cael eu darparu'n ddwyieithog.
- Yr angen am ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a chyfathrebu dwyieithog ynghylch cyflwyno, gweithredu a gorfodi'r ddeddfwriaeth.
- Yr angen am ddeunydd cyfathrebu dwyieithog i hyrwyddo nodau iechyd y cyhoedd y ddeddfwriaeth.

Bydd holl gyfathrebu Llywodraeth Cymru â'r cyhoedd, awdurdodau lleol, manwerthwyr a'r diwydiant alcohol (yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill) ynglŷn â Deddf 2018 a'r rheoliadau sy'n pennu'r lefel yn ddwyieithog, yn unol â Safonau'r Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae grwpiau buddiant yr iaith Gymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?

Mae'r prif rhanddeiliaid yn cynnwys y diwydiant alcohol yn gyffredinol, manwerthwyr, awdurdodau lleol, sefydliadau yn y gymuned, gwasanaethau a darparwyr triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau, Plant yng Nghymru, y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn, Safonau Masnach, fforymau ieuenctid ac aelodau o'r cyhoedd.

Gan nad yw'r rheoliadau sy'n pennu lefel yr isafbris uned at ddibenion Deddf 2018 yn ymwneud â gwasanaeth cyhoeddus newydd (na newid i wasanaeth presennol), mae'n bosibl na fydd yn denu diddordeb penodol ac arbennig gan grwpiau buddiant yr iaith Gymraeg.

Bydd holl ganllawiau, deunydd hyfforddi a deunydd cyhoeddusrwydd Llywodraeth Cymru yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydgysylltu â manwerthwyr, y diwydiant alcohol, awdurdodau lleol, Penaethiaid Safonau Masnach Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill (gan gynnwys gwasanaethau a darparwyr triniaeth), o ran datblygiad y deunyddiau hyn. Rhoddir ystyriaeth i'r Gymraeg yn barhaus.

Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch adroddiad llawn at ddibenion cadw cofnod.

Amherthnasol – mae'r effeithiau a nodwyd wedi'u hamlinellu o fewn y templed asesu hwn.

Pa gamau/gwaith ychwanegol a nodwyd yn y cam cynllunio cychwynnol?

ee gofynion o ran data, yr angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg eu hiaith, nodi rhanddeiliaid neu restr ymgynghori, yr angen i gysylltu ag Uned y Gymraeg i gael cyngor?

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad cychwynnol ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd a'r ymatebion yn ddwyieithog. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar y Bil drafft dilynol yn ddwyieithog er mwyn sicrhau y caiff anghenion a gofynion ieithyddol eu hystyried yn briodol. Cafodd holl ddogfennau perthnasol y Bil hefyd eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Roedd hyn yn cynnwys y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil, a'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg.

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar lefel yr isafbris uned a ffefrir, a'r rheoliadau drafft yn ddwyieithog hefyd. Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, roedd cwestiynau ymgynghori penodol wedi'u cynnwys ar effaith bosibl y rheoliadau drafft ar y Gymraeg (yn unol â Safonau'r Gymraeg).

Mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i'w cyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd wedi'u cyhoeddi yn ddwyieithog, ynghyd â'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg a'r Asesiad Effaith Integredig.

Bydd angen cysylltu'n barhaus gyda rhanddeiliaid allweddol drwy gyfrwng y Gymraeg, wrth i'r rheoliadau gael eu cyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - ac os ydynt yn cael eu pasio, drwy gydol y cyfnod gweithredu.

CAM 2: NODI AC ASESU EFFEITHIAU

Crynodeb o'r Asesiad Effaith

Crynowch yr asesiad o'r effaith manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a roddwyd.

Effeithiau cadarnhaol:

Bydd cyflwyno gwybodaeth yn yr ieithoedd a ffeirir yn sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn cael cyfle i ddeall goblygiadau'r rheoliadau a'r darpariaethau yn Neddf 2018 yn llawn. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid fel rhan o'r ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft - a bydd yn parhau i wneud hynny wrth i'r rheoliadau gael eu cyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gallai hyn arwain at welliannau ac addasiadau i ddogfennau yn yr arfaeth ar gyfer cyflwyno, gweithredu a gorfodi Deddf 2018, a allai helpu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg pan fo hynny'n gwneud synnwyr ymarferol a phosibl.

Effeithiau negyddol:

Mae'n bosibl bod gallu awdurdodau lleol (a phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill) i gynnig mwy o ddarpariaeth Gymraeg yn cystadlu â blaenoriaethau gwasanaeth eraill. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn ystod y broses o weithredu'r rheoliadau a Deddf 2018, gyda'r bwriad o leihau'r effaith pan fo modd.

Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg ee gwella statws, cynyddu'r defnydd o wasanaethau Gymraeg, y defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd, y Gymraeg yn y gwaith?

Bydd cyfleoedd ar gael yn y Gymraeg i egluro'r polisi a darparu gwybodaeth ar ofynion y ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn rhoi cyfle i siaradwyr Gymraeg ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a bydd yn rhoi'r hyder iddynt egluro'r polisi newydd yn yr iaith y maent yn ei ffafrio.

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd gan gynnwys proffil demograffig wrth ystyried yr effeithiau:

Dylid asesu'r ddarpariaeth Gymraeg a ddefnyddir gan awdurdodau lleol er mwyn ystyried a oes angen addasiadau/gofynion ar lefel leol neu lefel genedlaethol.

Beth yw'r effaith gyffredinol debygol a ragwelir ar y Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu, ar sail yr asesiad effaith / asesiad risg?

Cadarnhaol: ☐
Negyddol: ☐
Niwtral: ☒
Anhysbys: ☐

Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad Effaith

1. Dim newid sylweddol



2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau



	3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru	☐
	4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno	☐
Os atebwyd 2, 3 neu 4 uchod – yna atebwch y canlynol: Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau ar gyfer y Gymraeg? Manylion camau lliniaru / camau gweithredu / opsiynau amgen er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:		
Os ydych chi'n ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych chi'n dymuno eu gofyn i randdeiliaid ynglŷn â'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?		
Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig hwn i gyflwyno isafbris uned ym Mhapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd rhwng 2 Ebrill a 24 Mehefin 2014 ac yn dilyn cyhoeddi Bil drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru) yn 2015. Roedd dogfennau ymgynghori, gan gynnwys fersiwn hawdd ei deall a fersiwn i bobl ifanc ar gael yn ddwyieithog ar wefan Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chopïau dwyieithog wedi eu hargraffu. Cynhaliwyd digwyddiadau dwyieithog i ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid hefyd yn 2014 a 2015. Yn ogystal â chwestiynau manwl ar bob cynnig polisi, roedd Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd 2014 yn cynnwys cwestiwn ynglŷn â sut y gallai'r cynigion effeithio ar y Gymraeg. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. Soniodd nifer o ymatebwyr yn gyffredinol bod angen i ddatblygiadau deddfwriaethol fod yn ystyriol o bolisiau a strategaethau eraill Llywodraeth Cymru, megis y fframwaith strategol "<i>Mwy na geiriau</i>" ar gyfer cryfhau'r Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Nid oedd yr ymateb i'r ymgynghoriad gan Gomisiynydd y Gymraeg yn cynnwys sylwadau manwl ar y cynnig, ond pwysleisiodd bwysigrwydd asesu anghenion yn ofalus ac ymgysylltu'n ystyrlon â dinasyddion lleol yng nghyd-destun datblygu asedau iechyd cymunedol. Wrth ymgynghori ac ymgysylltu ag amrywiol grwpiau ac unigolion, ac wrth weithio gydag unigolion sy'n chwilio am driniaeth ar gyfer camddefnyddio alcohol, bydd gwasanaethau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â Safonau'r Gymraeg a'r strategaeth "<i>Mwy na Geiriau</i>". Roedd yr ymgynghoriad ar lefel yr isafbris uned a ffeirir gan Lywodraeth Cymru a'r rheoliadau drafft hefyd yn cynnwys cwestiynau penodol ar yr effeithiau posibl ar y Gymraeg.		
CAM 3: AR ÔL YR YMGYNGHORIAD A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO		
Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau yr ydych chi wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?		

Dim ar hyn o bryd. Ond mae hyn yn cael ei adolygu yn barhaus ochr yn ochr â gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, cyn gweithredu.

Mae Bwrdd Gweithredu Isafbris Uned wedi'i sefydlu i oruchwylio gweithredu isafbris am alcohol. Mae ei aelodau yn cynnwys cydweithwyr o'r gwasanaeth cyfieithu.

Sut y byddwch chi'n monitro'r effeithiau parhaus wrth roi'r polisi ar waith?

Bydd materion a gofynion y Gymraeg yn cael eu hystyried yn barhaus o ran gweithredu a gorfodi Deddf 2018 a rheoliadau pennu lefel yr isafbris uned.

Amlinellwch sut y byddwch yn parhau i gasglu gwybodaeth am effeithiau wrth wneud gwaith monitro a gwerthuso yn y dyfodol.

Drwy drafod ac ystyried gofynion wrth iddynt godi ac amlinellu unrhyw faterion yn yr asesiad hwn yn ôl yr angen.

Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwaith gwerthuso, effeithiau sy'n dod i'r amlwg

Amherthnasol.

4. Datganiad

Arweinydd polisi:

****Dileer fel y bo'n briodol:***

***Mae'r polisi hwn / ~~nid yw'r polisi hwn~~ yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleodd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu gweithredu.**

Enw:

Samantha French

Adran:

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dyddiad(au):

Adolygwyd ddiwethaf ym mis Hydref 2019.

Llofnod:

SF

Dyddiadau Adolygu Arfaethedig:

I'w adolygu cyn gweithredu isafbris am alcohol a chyn y daw'r ddeddfwriaeth i rym.

ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL

Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect ar y cam hwn o'r datblygiad. Drwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.

Llofnod: Tracey Breheny

Dyddiad: 26 Medi 2019

(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Llofnodwyd:

Dyddiad adolygu

(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Llofnodwyd:

Dyddiad adolygu

(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Llofnodwyd:

Dyddiad adolygu

(Uwch Berchennog Cyfrifol)